

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o gyfarfod Mis Chwefror Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 08/02/2017 yn Festri Porthyrhyd – 19.30yh.

Minutes of the February meeting of Llanddarog Community Council held on the 08/02/2017 at the Vestry Porthyrhyd – 19.30pm.

Presennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: J Youens (Cadeirydd / Chairman), R Jones, V Thomas, J Howells, W Evans, HV Williams, R Newell, S Evans & R Owen.

Clerc / Clerk & Cyfieithydd/ Translator.

1.0 Ymddiheuriadau / Apologies:

Cyng/Cllrs T Jones & I Thomas.

2.0 Datganiadau o fuddiannau personol / Declarations of personal interest.

Dim / None.

3.0 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod gan gyfeirio at godi arian yn yr Eglwys yn ogystal â cyfarfod Grwp Cynghorau Cymuned y Gwendraeth. Fe gytunwyd danfon llythr i Cyng I Thomas i ddymuno gwellhad buan iddo. Fe ddiolchwyd i'r Cadeirydd, yn ogystal a gymuned Mynyddcerrig, yn sgil noswaith ardderchog gwobrwyo Nigel Owens / *The Chairman welcomed everyone to the Meeting and referred to money raised at the Church as well as the recent Gwendraeth Group of Community Councils meeting. It was agreed that a letter be sent to Cllr I Thomas wishing him a speedy recovery. The Chair, along with the community of Mynyddcerrig, were thanked for the excellent recent Nigel Owens presentation evening.*

4.0 Cadarnhau Cofnodion cyfarfodydd 11/1/2017 a 25/11/2017/ Confirmation of the minutes of 11/1/2017 and 25/11/2017 meetings.

Ar ol cynig gan y Cyng R Jones ac eilio gan Cyng W Evans; Penderfynnwyd cadarnhau y cofnodion gan y Cyngor / *Following a proposal by Cllr R Jones and seconding by Cllr W Evans, it was: Resolved to confirm the minutes by the Council.*

5.0 Materion yn Codi o'r cyfarfodydd diwethaf / Matters arising from the previous meetings.

(a) Cyf cofnod 15b – Fe wnaeth Cyng Jones gadarnhau ei fod wedi cysylltu a'r Cyngor Sir. Fe fydd y Clerc yn cysylltu eto yn ogystal / *Minute 15b refers - Cllr R Jones confirmed that he has contacted the County Council. The Clerk will contact them again also.*

6.0 Diweddariad ar hunan ymrestrriad / Update on auto enrolment

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar wnaeth gadarhau fod y gwaith yn mynd yn ei flaen. Mae ohebiaeth oddi wrth y Rheolydd Pensiynau wedi cael ei arwain ymlaen at ymgynhorwyr y Cyngor. Nodwyd yr item yma /

A verbal report was provided by the Clerk which confirmed that the work is progressing. Correspondence from the Pensions Regulator has been passed onto the Council's consultants. This item was noted.

7.0 Gohebiaeth /Correspondence.

(a) Nodwyd yr itemau isod / *This below items were noted.*

1 Cyngor Tref Caerfyrddin – Gwahoddiad I Pared Dewi Sant 25/2/2017 / **Carmarthen Town Council** – invitation to Saint David's Parade 25/2/2017.

2 Menter Cwm Gwendraeth – Prosiect Gweithredu Ynni Lleol / **Menter Cwm Gwendraeth** – Local Energy Action Project

3. Cyngor Sir Caerfyrddin – Fforwm Cyswllt Chwefror 7 2017 wedi ei ganslo / **Carmarthenshire County Council** – Liaison Forum February 7 2017 has been cancelled.

4 Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad i Bil Undebau Llafur (Cymru) / **National Assembly for Wales** – Consultation into the Trade Union (Wales) Bill

5. Cymorth Cynllunio Cymru – Digwyddiad Cynllunio llefydd 7/2/2017 a newyddlen cynllunio am cymunedau / **Planning Aid Wales** – Place Planning Event 7/2/2017 and planning for communities newsletter.

6. CAVS – Mae Prosiect Chwarae Llwybrau Porffor yn cynnig Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed. Efallai nad ydych wedi gweld ein fan ar hyd y lle gymaint dros y flwyddyn ddiwethaf, ond rydym yn dal i ddarparu cyfleoedd chwarae a gallem drefnu sesiwn yn eich ardal chi am gyn lleied ag £85.00, a fyddai'n cynnwys sesiwn o 1 awr 59 munud gyda 2 Weithiwr Chwarae ac offer, a byddai'n bosib ei chynnal ar ôl ysgol neu yn ystod y gwyliau ysgol. / **CAVS** – The Purple Routes Play Project provides Open Access Play Provision for children and young people aged between 5 – 15 years. You may not have seen our van around so much over the last year, but we are still delivering play and we could arrange a session in your area for just £85.00, this would be a 1 hour 59 minute session with 2 Play Workers and equipment, which could be held after school or during the school holiday period.

7 Menter Cwm Gwendraeth – Grwp Cynghorau Cymuned y Gwendraeth – 24/1/2017 / **Menter Cwm Gwendraeth** – Gwendraeth Group of Community Councils 24/1/2017

8 Un Llais Cymru – Rhaglen Cyrsiau Hyfforddiant / **One Voice Wales** – Programme of Training Courses

9 Un Llais Cymru – Cyfleuon am apwyntiadau cyhoeddus / **One Voice Wales** – Public appointment opportunities

10 Un Llais Cymru – Nodyn Briffio ar CIL / **One Voice Wales** – CIL briefing note

11 Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal – 8/2/2017 (Clerc wedi eisioes danfon ymddiheuriadau ar rhan y Cyngor) / **One Voice Wales** – Area Committee – 8/2/2017 (Clerc has already sent apologies on behalf of the Council).

12 Taith Dros Fwyd – 23/4/2017 / **Walk for Life** – 23/4/2017.

13 Mrs A Picton – Llwybr 'du' yr M4 newydd arfaethedig / **Mrs A Picton** – proposed M4 'black route'

14 Archwilydd Cyffredinol Cymru – DATGANIAD I'R WASG: Mae angen i gynghorau cymunedol wella rheolaeth ariannol a llywodraethu / **Welsh Audit Office – PRESS RELEASE:** *Community councils need to improve financial management and governance*

15 Heddlu Cross Hands – Cofnodion cyfarfod PACT ac ystadegau / **Cross Hands Police –** *PACT meeting minutes and statistics.*

16 Llywodraeth Cymru – lansio Rhaglen 2017 i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a broses gofrestru ar gyfer Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol / **Welsh Government** *has launched Programme 2017 to mark the centenary of the First World War and information regarding the registration process for the 'Third Battle of Ypres (Passchendaele): National Service of Remembrance'*

17 Archwilydd Cyffredinol Cymru – “Mae buddsoddiad mewn gwasanaethau trydydd sector yn cynyddu, ond nid yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector” / **Auditor General for Wales** *“Investment in third sector services increasing but local authorities in Wales not making best use of the third sector”*

18 Cyngor Sir Gar - Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi lansio ymgynghoriad ar adroddiad Aseiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2016/17. Mae'r BGC yn awyddus i wybod os ydych yn cytuno gyda'r aseiad llesiant ac yn eich gwahodd i gynnig sylwadau o 6 Chwefror tan 3 Mawrth 2017, a hynny drwy'r wefan newydd. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi doddi y gwybodaeth ar wefan y Cyngor Cymuned / **Carmarthenshire County Council -** *The Carmarthenshire Public Services Board (PSB) has launched a consultation on its Carmarthenshire Well-Being Assessment Report 2016/17. The PSB want to know if you agree with their assessment of well-being and invite you to give your views from 6th February to 3rd March 2017 via their new website. The Clerk confirmed that he has placed this information on the Community Council's website.*

(b) Gweithredoedd yn sgil oheboiaeth / Actions resulting from correspondence:

1 Cymdeithas Amethyddol Frenhinol Cymru (Pwyllgor Sir Gar – 2017 yw flwyddyn Sir Gar) – cais am gefnogaeth Penderfynnwyd fyddai hwn yn cael ei ystyried gyda'r ceisiadau eraill a dderbynwyd am gymorth yn y flwyddyn newydd / **Royal Welsh Agricultural Society (Carms Committee –** 2017 is Carms year) – *application for assistance Resolved that this will be considered alongside other applications for assistance in the new year.*

2. Llywodraeth Cymru – Arolwg “Mae'r arolwg yn ceisio dysgu mwy am y gwasanaethau a'r asedau y mae'ch cyngor yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd, a ydych yn ystyried ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau dros wasanaethau ac asedau, a beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Hyfforddi a Chynghori Cenedlaethol (NTAG) eich cefnogi i wneud hynny.” Penderfynnwyd fyddai y Clerc yn llenwi yr holiadur / **Welsh Government –** *Survey “The survey aims to find out more about the services and assets your council is currently responsible for, whether you are considering taking on more responsibility for services and assets, and how the Welsh Government and NTAG could best support you to do so.” Resolved that the Clerk fill in the questionnaire.*

3 Gofal Cancer Tenovus – cais am gefnogaeth ariannol Penderfynnwyd fyddai hwn yn cael ei ystyried gyda'r ceisiadau eraill a dderbynwyd am gymorth yn y flwyddyn newydd / **Tenovus Cancer Care –** *application fo for*

financial assistance Resolved that this will be considered alongside other applications for assistance in the new year.

4. Llywodraeth Cymru – Papur Gwyn ‘Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad’ Penderfynnwyd gofyn am esboniad oddi wrth Un Llais Cymru a rhestri yr item ar agenda mis Mawrth 2017 / **Welsh Government** – *White Paper ‘Reforming Local Government: Resilient and Renewed’* Resolved to seek advice from One Voice Wales and list this item on the agenda of the March 2017 meeting.

5 Cyngor Sir Gar - Bwriad BT i gael gwared ffonau talu cyhoeddus, yn ogystal â rhoi cyfle i gymunedau i "fabwysiadu" ciosgau ffôn - ail ymghoriad. Mae rhaid ail ymgynhori tan 20 Mawrth 2017 gan ni wnaeth BT rhoi posteri dwy ieithog i fynny. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi doddi nodyn ar wefan y Cyngor Cymuned Penderfynnwyd ymateb i'r Sir i gadarnhau dylid derbyn sylwadau'r Cyngor fel gyflwynwyd eisioes a hefyd dylid mynegi unrhyw sylwadau a wnaethwyd gan cyhoedd / **Carmarthenshire County Council** *BT's proposal for removing public payphones, as well as giving communities the opportunity to "adopt" telephone kiosks – re consultation. The re consultation must take place due to BT not using bilingual notices. The Clerk confirmed that he has placed a note on the Community Council's website.* Resolved to reply to the County Council to confirm that the Council's comments as previously submitted should be reflected as such. Furthermore, any comments by residents should also be reflected.

8.0 Diweddariad ar gweithredu y strategaeth buddsoddiad flynyddol 2016-17 / Update on actioning of the Annual Investment Strategy 2016-17.

Fe wnaeth y Clerc gadarnhau bod y gyfrif 'gratuity' wedi cau. Nid oes lawer o ymdeithad wedi ei gyflawnni ynglyn â bancio ar lein. O rhan ceisio gwella incwm buddiant, fe wnaeth y Clerc adrodd for cyfrifau 'sweep' dim ar gael bellach, ond mae ef yn edrych i mewn i cyfrifion rhybydd 30 dydd. Penderfynnwyd nodi adroddiad y Clerc / *The Clerk confirmed that the gratuity account is closed. Limited progress has been made in relation to online banking. In relation to seeking better interest income, the Clerk reported that 'sweep' accounts are no longer offered, however he is looking into 30 day notice accounts.* Resolved to note the Clerk's report.

9.0 Gwobrau y Gymuned a'r Ieuenctid / Community and Young People Awards

Fe wnaeth y Clerc gadarnhau fod hysbysebion wedi cael ei ddanfôn i'r wasg a'i ddodi yn yr hysbysfyrddau - yn ogystal a wefan y Cyngor. Y dyddiad a cau rhoddwyd oedd Chwefror 17 2017. Fe wnaeth Aelodau ofyn os fyddai modd rhoi estyniad tan Mawrth 6 2017. Fe wnaeth y Clerc ymateb ei fod yn bryderi dros y ffaith ni fyddai hyn yn rhoi amser i unrhyw enwebau gael ei ddarllen gan Aelodau o flaen llaw cyfarfod mis Mawrth 2017. Fe wnaeth bwysleisio yn ogystal ei fod wedi eisioes danfon allan hysbysebion. Penderfynnwyd rhoi estyniad tan Mawrth 6 2017, gyda'r ennillwyr yn cael ei dewis yng nghyfarod Mawrth 8 2017. Fe gafodd y Clerc ei gyfarwyddo taw dim ond y wefan oedd angen iddo adnewyddu gyda'r dyddiad cau newydd. Bydd Aelodau yn dosbarthu'r hysbysebion o fewn mudiadau lleol. Fe fydd y gwobrau, cyflenwr ac arysgrifen ayyb yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod mis Mawrth 2017 y Cyngor. / *The Clerk confirmed that advertisements had been sent to the press, placed in notice boards and on the Council's website. The deadline*

given was February 17 2017. Members requested that the deadline be extended to March 6 2017. The Clerk stated he was concerned that this would not allow any submissions to be read by Members in advance of the March 2017 monthly meeting and further emphasised that he had already sent out the adverts. Resolved that the deadline be extended to March 6 2017, with winners determined at the Council meeting of 8 March 2017. The Clerk was instructed that he need only update the website to reflect the new date and that Councillors will circulate the adverts amongst local organisations. Details of award, supplier and wording for inscription etc will be confirmed at the March 2017 monthly meeting.

10.0 Arolwg y Clerc / Clerk's Appraisal

Penderfynnwyd gofyn i'r Cadeirydd a'r Clerc i gynnal yr arolwg ac adrodd yn ol i'r Cyngor maes o law. / Resolved that the Chairman and Clerk be asked to conduct an appraisal and report back to Council in due course.

11.0 Cynllunio / Planning

Nodwyd y ceisiadau isod / *The below applications were noted*

(a) W/34994: PROPOSED FALCONRY CENTRE - NEUADD MIDDLETON GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU.

(b) W/35012: CHANGE OF USE - AGRICULTURAL LAND TO TENT AND MOTORHOME CAMPING FACILITY - NEUADD MIDDLETON GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU.

(c) W/35050: CONVERT INTEGRAL GARAGE INTO STUDY PLAYROOM BY ALTERING EXISTING FRONT DOORS TO FORM PATIO DOORS LEADING ONTO EXISTING DRIVEWAY - 12 PONTFAEN, LLANDDAROG

12.0 Taliadau/ Payments

Cadarnhawyd yr isod / *The below were ratified*

Rhif/Number	Dyddiad/Date	Manylion/Details	Swm/Sum
1266	11/1/17	V Thomas	29.35
1267	11/1/17	Mynyddcerrig Welfare	50.00
1268	11/1/17	SLCC	111
1269	11/1/17	W Bishop	35.00
1270	11/1/17	Menter Gwasanaethau	146.25
1271	11/1/17	Proprint	34.44
1272	26/1/17	Margaret Rees	160
1273	26/1/17	Neuadd Llanddarog	20.00

13.0 Derbyniadau /Receipts

Dim/ None

14.0 Atodlen arolwg cyflwr / Condition survey schedule

(a) Fe wnaeth Aelodau ystyried atodlen arfaethedig a gafodd ei ddarparu o flaen llaw. Fe wnath Aelodau rhoi cymorth ynglyn ac ymholiadau y Clerc ynglyn â main perchnogaeth asedion y Cyngor. Penderfynnwyd derbyn yr adroddiad a rhoi cyniatad i'r Clerc i gadarnhau yr atodlen. Mae dim ond angen i'r Clerc ofyn i TBM i wneud 2 arolwg y flwyddyn (gyda adroddiadau i'r Cyngor

bob Medi a Ionawr) fel rhan o'r gytundeb gwasanaeth. / (a) *Members considered a proposed schedule which was provided before hand. Members assisted in clarifying queries the Clerk had in relation to the extent of Council asset ownership. Resolved to accept the report and authorise the Clerk to confirm the schedule. The Clerk is only required to ask TBM to undertake 2 inspections per year (with reports provided to Council in September and January) as part of the maintenance agreement.*

(b) Fe wnaeth y Clerc gadarnhau (yn dilyn materion a godwyd yng ngyfarfod mis Ionawr 2017) ei fod wedi gofyn i TBM i wneud arolwg ar frys o'r seddau yn Llanddarog a Porthyrhyd. Fe rhoddwyd gopi o'r adroddiad o flaen llaw, a fe gafodd ei atodi gan adroddiad wedi ei gywiro a rhoddwyd allan yn y cyfarfod. Fe wnaeth y Cadeirydd gadarnhau nid oedd pryder ym Mynyddcerrig, on fe fydd TBM yn edrych ar y seddau yma hefyd maes o law. Penderfynnwyd derbyn yr adroddiad a nodi y gwaith sydd wedi cael ei ymgymryd gan TBM / (b) *The Clerk confirmed that (following issues raised in the January 2017 meeting) that he had asked TBM to undertake an urgent survey of seating in Llanddarog and Porthyrhyd. A copy of the report was provided to Members before hand which was supplemented by a corrected report tabled at the meeting. The Chair confirmed that there was no issue in Mynyddcerrig, albeit TBM will be asked to review these seats also in due course. Resolved to accept the report and note the remediation works undertaken by TBM.*

15.0 Buddsoddiad seddau / Seating investment

Fe wnaeth y Clerc adrodd fod TBM wedi sicrhau dyfynbrisau ar gyfer amryw mathau o seddau ar gyfer Rose Villa, Llanddarog. Mae'n debygol fydd eisiau sedd newydd yn lle yr un sydd wedi gael ei symud i ffwrdd ger y Ficerdi, Llanddarog, yn ogystal. Penderfynnwyd rhestri yr item yma ar agenda cyfarfod mis Mawrth 2017 y Cyngor / *The Clerk advised that TBM had sourced quotations for various types of seats for Rose Villa, Llanddarog. There is also likely to be a need for a new seat to be replace the seat removed adjacent Vicarage, Llanddarog. Resolved that this item be placed on the agenda of the March 2017 meeting.*

16.0 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd / Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman

(a) Fe godwyd trefniadau ar gyfer y cinio flynyddol. Penderfynnwyd rhestri yr item yma ar agenda cyfarfod mis Mawrth 2017 y Cyngor / *The issue of arrangements for the annual dinner was raised. It was resolved that this item be placed on the agenda of the March 2017 meeting.*

(b) Derbynnwyd adroddiad gan Cyng R Newell ar nifer o faterion ym Mynyddcerrig fel y ganlyn: cyflwr hewl i'r pysgodfa, arwyddion marchogaeth ceffylod ac arwydd hewl i'r pentref. Penderfynnwyd ofyn i'r Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir. / *A report was received from Cllr R Newell in relation to various matters in Mynyddcerrig thus: road condition to fishery, horse riding signage and road signage into the village. It was resolved to ask the Clerk to contact the County Council.*

(c) Derbynnwyd gais gan y Cadeirydd i gael arwyddion ar gyfer y man chwarae ym Mynyddcerrig. Penderfynnwyd ofyn i'r Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir. / *A request was received from the Chairman seeking signage for Mynyddcerrig village playground. It was resolved to ask the Clerk to contact the County Council.*

Mewn camera/ In camera (cyfieithydd yn gadael am 20.25yh / Translator departed at 20.25pm)

17.0 Cyflog a treuliau 1/10/17 - 31/3/17 / Salary and expenses 1/10/16-31/3/17.

Fe wnaeth bod Aelod derbyn gopi o adroddiad o flaen llaw. Nodir fod y cyfnod anghywir wedi ei rhestri ar yr agenda fel gwall teipograffaid, ond roedd y cyfnod o fewn yr adroddiad ei hun yn gywir. Fe benderfynnwyd derbyn yr adroddiad a talu y symiau fel a gyflwynyd / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was noted that there was a typographical error on the agenda which referred to the incorrect period, however the period within the report itself was correct. It was resolved to accept the report and pay the sums as presented.*

18.0 Cytundebau gwasanaeth 2017 / Service agreements for 2017

Fe benderfynnwyd rhoi cyniatad i'r y Clerc i fwrw ymlaen a'r gwaith ac adrodd yn ol i'r Cyngor fel bo'r angen / *It was resolved to authorise the Clerk to proceed with the work and report back to the Council as and where appropriate.*

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30 yh / The meeting finished at 20.30 pm.